



# **TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR**

**CYMRAEG AIL IAITH**

**HAF 2013**

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn::

<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu. Bydd yr adroddiad hwn i'w weld yn y lleoliad canlynol:

<http://www.wjec.co.uk/index.php?nav=51>

**TGAU**  
**Cymraeg Ail Iaith**

**Haf 2013**

*Prif Arholwyr:* Trefor Lewis, B.A., M.Phil  
Dewi Lewis, B.A.

Erbyn hyn mae'r arholiadau Uned 1 ac Uned 4 ar eu hail flwyddyn ac mae athrawon ac ymgeiswyr wedi cynefino â'r cyd-destunau a'r dulliau asesu. Byddai'n ddigon buddiol i atgoffa athrawon am y canllawiau sy'n cael eu nodi ar glawr y papur arholiad ac y dylent eu hystyried ar gyfer y broses o farcio ar-lein, sef:

1. Dylai ymgeiswyr ysgrifennu eu hymatebion mewn inc neu feiro du. Mae hyn yn sicrhau y bydd y copi o'r sganiwr yn glir.
2. Rhaid cadw'r atebion o fewn y gofod a ddarperir ar gyfer pob cwestiwn, oherwydd nid yw'r sganiwr yn copïo tu allan i'r gofod hwn.
3. Os oes angen cywiro rhywbeth dylid rhoi llinell drwyddo ac ail ysgrifennu'r ymateb o fewn y gofod ar gyfer ysgrifennu neu ar lyfryn ar wahân.
4. Dylai llawysgrifen ymgeiswyr fod yn daclus a chlir.
5. Os nad oes digon o le i ysgrifennu atebion dylid parhau mewn llyfryn ar wahân gan nodi rhif y cwestiwn yn glir arno.

**UNED 1 – DARLLEN AC YSGRIFENNU**

Papur arholiad 1 awr ydy hwn a gall ymgeiswyr ddewis yr Haen Sylfaenol neu'r Haen Uwch. Mae cynnwys y papur wedi ei sylfaenu ar gyd-destunau A. Ar y cyfan cafwyd ymatebion digon llwyddiannus yn y ddwy haen gan ystyried mai disgyblion y Cwrs Byr yw cyfran o'r ymgeiswyr.

**Cwestiwn 1. Darllen – 15 marc.** (12 marc darllen, 3 marc ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

Cwestiwn darllen yw hwn ond hefyd gwobrwyir ymgeiswyr am gywirdeb wrth iddynt ymateb yn ysgrifenedig ar ffurf paragraff. Ar y cyfan cafwyd atebion digon llwyddiannus a chyfran uchel o'r ymgeiswyr yn ennill dros 10 o farciau.

- (i) Y dasg gyntaf, am 3 marc, oedd ticio 3 llun i ddangos dealltwriaeth o 3 gweithgaredd a oedd yn cael eu gwneud ar gyfer codi arian at ganser plant. Ar y cyfan llwyddodd canran uchel iawn i wneud hyn yn llwyddiannus. Roedd nifer o ymgeiswyr hefyd wedi ticio dau lun yn lle tri.
- (ii) Mae'r ail dasg yn fwy uchelgeisiol, sef ysgrifennu paragraff sy'n cynnwys gwybodaeth benodol o'r daflen a ddarllenwyd. Dyfarnwyd 9 marc am gyflwyno 9 ffaith benodol yn gyfathrebol gywir ac yna 3 marc am gywirdeb gramadegol yn y paragraff. Er mwyn ennill marciau am y cynnwys roedd rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir a diamwys.

e.e. Dyddiad. Awst 5 = 1 marc; dydd Sadwrn yn unig = 0  
Stondin gwerthu. Ble? Neuadd y dref = 1 marc. Y neuadd = 0.

Dyfarnwyd hyd at 3 marc am gyfathrebu llwyddiannus ac ymdrech dda i ddefnyddio brawddegau llawn yn gywir. Ni ddyfarnwyd marciau iaith lle nad oedd ymdrech i ysgrifennu mewn brawddegau nac ychwaith lle roedd ymgeiswyr yn ceisio copïo popeth fel ag yr oedd yn y darn darllen.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- wirio eu bod wedi cynnwys y wybodaeth angenrheidiol trwy dicio'r gofynion sy yn y cwestiwn
- ysgrifennu mewn brawddegau llawn gan ddethol y wybodaeth angenrheidiol i ateb y cwestiwn
- ail ddarllen y darn cyn dewis pa luniau i dicio.

### **Cwestiwn 2. Ysgrifennu 10 marc** (5 cynnwys, 5 mynegiant)

Y dasg yw ysgrifennu ymatebion i ddau destun sylfaenol o gyd-destun A, sef Yr Ardal a Chanu Pop. Dyfarnwyd 5 marc am gyflwyno 5 ffaith yn ddealladwy am y ddau destun a 5 marc arall am ddefnyddio 5 cystrawen wahanol yn gywir yn yr ymateb.

Mae'r cwestiwn yn sicrhau bod angen defnyddio **5 cystrawen wahanol** er mwyn ateb y cwestiwn yn llwyddiannus.

Pethau dw i'n hoffi - cystrawen gadarnhaol fel 'dw i'n hoffi'.

Pethau dw i ddim yn hoffi - cystrawen negyddol fel 'dw i ddim yn hoffi'.

Rheswm – achos

Disgrifiad – 'fy hoff ganwr ydy'

- mae e'n / o'n / hi'n ayyb.

Felly o ran dyfarnu marciau iaith edrychir am ddefnydd cywir o'r prif gystrawennau sylfaenol.

Y camgymeriadau mwyaf amlwg i'w hosgoi yw llithriadau megis:

Dw i ddim hoffi, mae fy hoff ganwr yn ..., achos mae diflas, hepgor y ferf – hoffi grŵp Oasis.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- sicrhau eu bod yn gallu defnyddio cystrawennau creiddiol yn gywir
- sicrhau eu bod yn cynnwys o leiaf 5 ffaith
- sicrhau eu bod yn ymateb i bob rhan o fewn y dasg e.e. yn sôn am y pethau maent yn hoffi a ddim yn hoffi.

**Cwestiwn 3. (Sylfaenol) Cwestiwn 1 (Uwch). Darllen 30 marc** (24 marc am ddealltwriaeth o'r cynnwys ac ymateb yn gryno yn y proffil, 6 marc am ddealltwriaeth ac ymateb ar ffurf brawddegau yn y 3ydd person).

Cyfweliad â Sophie Evans oedd y dasg ddarllen eleni. Mae'r dasg hon ar gyfer yr Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch ac roedd digon o dystiolaeth bod y cyd-destun yn apelio at ymgeiswyr y ddwy haen. Fel y soniwyd y llynedd mae techneg arholiad yn gallu helpu ymgeiswyr o bob gallu e.e. enw tad a mam - yn amlwg felly yn edrych am ddau enw. Sawl - edrych am rif ayyb.

Yr ail dasg oedd ysgrifennu dwy frawddeg yn y 3ydd person yn rhoi dwy ffaith am beth roedd Sophie yn ei ddweud yn y cyfweiliad am y dyfodol.

Dyfarnwyd 6 marc am yr adran hon sy'n asesu ymateb ysgrifenedig i ran benodol o'r darn darllen. Felly 3 marc yr un am ddwy frawddeg gywir yn y 3ydd person. (3 x 2 = 6 marc).

Roedd rhaid i'r ffeithiau fod yn gywir cyn y gellid dyfarnu marc o gwbl.

Dyma enghreifftiau o frawddegau a oedd yn cael 3 marc.

Hoffai hi wneud mwy o waith yn y theatr.

Mae hi'n dweud ei bod hi eisiau canu mewn cyngherddau yng Nghymru.

Mae hi eisiau mynd nôl i'r Rhondda i weld ei ffrindiau.

Dyfarnwyd 2 marc am frawddeg lle ceid ymdrech deg i ddefnyddio'r 3ydd person gyda chamgymeriad bach.

Brawddegau 2 marc.

Hoffai Sophie yn gael mwy o amser i fynd nôl i'r Rhondda i weld ei ffrindiau.

Mae hi'n Sophie eisiau gweithio yn y theatr ac ar y teledu yn Lloegr.

Mae Sophie yn eisiau cael mwy o wersi llais.

Ni ddyfarnwyd marciau am frawddegau:

- lle nad oedd ymdrech i ddefnyddio'r 3ydd person
- lle nad oedd y wybodaeth yn y frawddeg yn gywir
- lle nad oedd y wybodaeth yn dod o'r adran gywir, sef y rhan am y dyfodol.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- ystyried yn fanwl pa wybodaeth sy ei angen i ymateb yn gywir yn y proffil
- sicrhau eu bod yn ateb pob adran ac isadran yn y proffil
- dethol y wybodaeth gywir ac osgoi copïo atebion a pharagraffau cyfan.

I godi safonau yn yr ail ran:

- mae angen hyfforddi'r ymgeiswyr i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Gall y dasg fod yn syml iawn ar ôl deall y cynnwys.  
e.e. weithiau does ond angen newid 'dw i eisiau', i 'mae hi eisiau'
- dylid tynnu sylw'r disgyblion at ryw'r person yn y cyfweiliad er mwyn iddynt ddefnyddio'r rhagenw cywir yn eu brawddegau
- rhaid i'r ymgeiswyr gofio bod y rhan hon yn asesu dealltwriaeth yn ogystal â'r gallu i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Felly rhaid i gynnwys y brawddegau fod yn berthnasol h.y. y Dyfodol yn y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 4. (Sylfaenol) Cwestiwn 2 (Uwch). Ysgrifennu 20 marc (10 cynnwys, 10 mynegiant)**

Y dasg oedd ysgrifennu stori i gyd fynd â chyfres o luniau. Roedd y cyd-destun yn gyfarwydd i ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol ac Uwch ac yn ymwneud a phethau megis gwersylla, y tywydd, beicio a siopa. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ysgrifennu o leiaf 3 brawddeg am bob llun.

## Cynnwys

Dyfarwyd 2 farc cynnwys am bob llun, sef 1 marc yr un am y ddwy frawddeg gyfathrebol destunol orau oedd yn adrodd y stori yn y llun.

## Mynegiant

Gwobrwyir:

- (a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrllon, ac yn naturiol mae'r elfen hon yn hanfodol cyn gellir gwobrwyo marciau cynnwys
- (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. Ffred ydy enw'r rheolwr
- (c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol
- (ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol ar gyfer naratif
- (d) y gallu i ysgrifennu deialog yn ddiddorol a chywir
- (dd) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrllon llwyddiannus
- (e) defnyddio'r geiriau a geir gyda phob llun yn synhwyrol.

Cafwyd gan y goreuon ymatebion cynhwysfawr a diddorol ac roeddent yn llwyddo i greu stori ddiddorol gan ddefnyddio'r lluniau fel fframwaith. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr hyn yn cadw at ofynion y dasg o ran hyd, ac yn wahanol i'r llynedd nid oeddent yn treulio gormod o amser ar y dasg.

Llwyddodd y canolig i ymateb yn llawn i'r gofynion gan ysgrifennu tua 3 brawddeg am bob llun. Ar y cyfan roeddent yn cadw at y disgwyliadwy ond yn llwyddo i ennill marciau megis 6,7,8 am eu cynnwys.

Llwyddodd canran dda o'r gweiniaid i ennill marciau gweddol am gynnwys ond fel arfer roedd eu marc mynegiant yn isel iawn. Gwendidau cystrawennol oedd yn eu llesteirio fwy na dim oherwydd roedd hi'n amlwg fod ganddynt eirfa weddol dda am bynciau fel coginio, siopa, beicio, dringo, y tywydd ayyb.

O ran cystrawen, y prif wendidau oedd y rhai y cyfeirir atynt yn C.2 a hefyd hepgor y ferf yn gyfan gwbl. Rhaid cofio bod angen brawddegau cyfathrebol er mwyn ennill marciau cynnwys yn ogystal â mynegiant, wrth gwrs.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- ymgyfarwyddo ag ysgrifennu stori am gyfres o luniau sy'n adrodd stori
- gwan ganolbwyntio ar ysgrifennu brawddegau creiddiol syml ar bob llun a chreu deialog syml
- canolig ganolbwyntio ar wella cytundeb terfyniad y ferf â'r goddrych
- sicrhau bod berf ym mhob brawddeg yn y naratif.

**Cwestiwn 3. Uwch – Darllen 30 marc.** (24 marc – darllen, 6 marc – ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

- (i) Darllen dau ddarn allan o gylchgrawn pobl ifanc oedd y dasg a osodwyd. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth trwy gwblhau gridiau oedd yn gofyn am wybodaeth benodol am waith gydag elusen, ffasiwn a chwaraeon. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn dewis a dethol y wybodaeth berthnasol er mwyn cwblhau'r tasgau yn llwyddiannus. Roedd tystiolaeth eleni bod ymgeiswyr yn llawer mwy cyfarwydd â'r dull hwn o asesu a hefyd eu bod yn sylweddoli nad oedd y wybodaeth angenrheidiol i gyd gyda'i gilydd yn yr un frawddeg.

Mae'r gofod sy ar gael ar gyfer yr atebion yn dangos mai atebion byr sy eu hangen, ond bydd mwy o ofod ar gael y flwyddyn nesa ar gyfer y dasg ac felly gobeithio na fydd angen gwneud cymaint o ddefnydd o'r llyfryn ychwanegol. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr osgoi ceisio copïo llinellau lawer o'r darn gan obeithio bod yr ateb yn cael ei gynnwys yn rhywle. Fel y llynedd, ni roddwyd marciau am atebion o'r fath.

- (ii) Ymateb i ddarllen. 6 marc.

Roedd cyfle yma i ddewis y pwynt gorau a'r pwynt doedden nhw ddim yn hoffi yn y ddau ddarn a rhoi eu rhesymau personol am wneud hynny.

Mae hi'n bwysig bod yr ymgeisydd yn dweud yn glir at beth mae'n cyfeirio ac wrth gwrs yn cynnwys rheswm personol da, sy wedi ei fynegi'n glir a chywir, i gael y 3 marc. Rhoddwyd 2 farc am ateb a oedd yn cynnwys camgymeriad bach ond oedd ar y cyfan yn dangos lefel dda o gywirdeb. Hefyd dyfarnwyd 2 farc am atebion cywir oedd yn cynnwys rheswm syml iawn, fel achos mae'n wych/ ddiflas.

Dyma enghreifftiau o frawddegau.

- (a) Dw i'n cytuno gyda Michelle achos dw i'n mwynhau gweithio yn siop Oxfam. Dw i'n meddwl mae'n bwysig helpu pobl arall. **3 marc.**

Dw i'n cytuno gyda Michelle achos dw i'n mwynhau gweithio yn siop Oxfam. Felly mae'n glir at beth mae'r ymgeisydd yn cyfeirio ac yn cynnwys rheswm syml = **2 farc**

Dw i'n meddwl mae'n bwysig helpu pobl arall. Yn ychwanegu rheswm da arall – felly + **1 marc.**

- (b) Mae Gareth yn hoffi pêl-droed ond mae'n gas gyda fi pêl-droed achos mae'n wastraff amser. **3 marc.**

Dw i'n anghytuno gyda Gareth am pêl droed. Mae'n well gyda fy criced achos mae'n rhy hwyl. **2 farc.**

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- yn rhan (i) – ddarllen y darn i gyd ac yna ystyried beth sy ei angen i ateb y cwestiwn
- peidio copïo brawddegau cyfan gan obeithio cynnwys yr ateb
- gofio nad yw'r ffeithiau sy eu hangen o angenrheidrwydd yn dilyn yr un drefn â'r cwestiwn
- yn rhan (ii) – dewis rhywbeth maent yn gallu rhoi rhesymau am ei hoffi neu ddim ei hoffi o'u profiadau nhw eu hunain - yn hytrach na dewis testun lle nad oes ganddynt farn bersonol hawdd ei fynegi
- wneud yn siŵr eu bod yn dangos dealltwriaeth o'r darn darllen e.e. mae Gareth yn dweud nad yw'n hoffi rygbi. Felly byddai ateb fel 'dw i'n cytuno gyda Gareth am rygbi achos dw i wrth fy modd yn chwarae rygbi i'r ysgol = 0 marc.

#### Cwestiwn 4. Uwch – Ysgrifennu 20 marc. (10 cynnwys, 10 mynegiant)

Roedd y tri thestun yn ddigon poblogaidd a chafwyd ymatebion rhagorol o ran cynnwys a chywirdeb gan y goreuon:

- (i) y syniadau am siarad Cymraeg. Cafwyd digon o syniadau a rhesymau am fwynhau dysgu a siarad Cymraeg. Gorffennodd un ymgeisydd fel hyn, 'Ar y cyfan, rydw i'n meddwl bod siarad Cymraeg yn bwysig achos mae'n rhan o ddiwylliant Cymru a dylai pawb yn siarad'.
- (ii) Gwaith rhan-amser - pethau da a phethau negyddol. Efallai mai hwn oedd y testun mwyaf poblogaidd ac ar y cyfan llwyddodd yr ymgeiswyr i roi sylw teilwng i ddwy ochr y ddadl.
- (iii) Digwyddiad arbennig yn fy mywyd. Roedd digon o gyfle yma i ymgeiswyr ysgrifennu'n ddiddorol am ddigwyddiad cyffrous. Ar y cyfan cafwyd ymatebion da a'r goreuon yn llwyddo i gadw at amser priodol y ferf.

O ran cynnwys roeddem yn edrych am:

- ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
- barn bendant a synhwyrol
- dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
- ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
- ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion.

Gan y goreuon cafwyd ymdriniaeth hyderus, syniadau clir a diddorol a thriniaeth aeddfed ac uchelgeisiol o fewn yr amser oedd ar gael i ateb y cwestiwn.

O ran mynegiant roeddem yn edrych am:

- y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
- y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- cywirdeb ac ymdrech i ymgynraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
- ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomaau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor
- ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

Cafwyd gwaith gwirioneddol dda gan y goreuon o ystyried mai ond rhyw chwarter awr oedd ganddynt i'w wneud. Roedd eu mynegiant yn ystwyth ac roedd ganddynt yr adnoddau iaith i gynhyrchu ymatebion diddorol gydag elfen dda iawn o gywirdeb.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu:

- geisio codi safon cywirdeb eu cystrawennau sylfaenol, gan osgoi camgymeriadau megis: yn fy marn i gwaith rhan-amser yn pwysig iawn..., aeth nhw ..., mae pobl siaradodd Cymraeg, dw i'n eisiau
- sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cwestiwn e.e. gyda gwaith rhan-amser cofio rhoi dwy ochr y ddadl – pethau da a phethau drwg
- sicrhau eu bod yn cadw digon o amser ar gyfer gwneud cyfiawnder â'r cwestiwn olaf hwn.



## UNED 2

### ASESU DAN REOLAETH

Mae'r cwrs newydd bellach wedi ymsefydlu a'r canolfannau i gyd, mwy neu lai, yn gyfarwydd â'r gwahanol dasgau. Ar ôl dweud hynny, mae llawer iawn o gynnwys adroddiad y llynedd yn dal i fod yr un mor berthnasol am 2013. Un ffaith sy'n achosi gofid yw mai canran gymharol fechan o'r ymgeiswyr a safodd tasgau Uned 2 y llynedd aeth ymlaen i sefyll arholiad Uned 3 eleni. Mewn geiriau eraill, dilynodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr y Cwrs Byr, a'r Cwrs Byr yn unig.

Er na chafwyd problemau ar yr un raddfa a'r hyn gafwyd y llynedd, roedd perfformiadau'r gwahanol ganolfannau'n dal i amrywio'n fawr. Cafwyd mwy o ganolfannau'n cyflwyno gwaith ardderchog o safon uchel iawn. Mae'n amlwg fod athrawon y canolfannau hynny wedi mynd ati i astudio'r fanyleb a'r canllawiau'n drwyadl gan ddehongli'r gofynion yn y ffordd fwyaf buddiol i'w disgyblion. Efallai iddynt hefyd astudio adroddiadau 2011 a 2012 a dysgu o'r cyngor a roddwyd am gamgymeriadau a wnaethpwyd.

Yn anffodus, fodd bynnag, roedd cynnyrch rhai canolfannau eraill yn siomedig iawn fel petaent heb ymweld â gwefan CBAC o gwbl, na chwaith wedi mynychu unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn genedlaethol nag yn sirol. Mae'n anodd credu bod rhai canolfannau gyda disgyblion yn sefyll y tasgau am y trydydd tro wedi defnyddio'r testunau anghywir ar gyfer y cyflwyniadau unigol a/neu'r tasgau anghywir ar gyfer y sgwrsiau sefyllfa. Roedd rhai wedi defnyddio tasgau 2011 a 2012. Yn waeth fyth, roedd rhai wedi defnyddio tasgau o'r Deunyddiau Enghreifftiol er yr holl sylw roddwyd i hyn yn adroddiad y llynedd a thrwy ohebiaeth gan CBAC. Mae'r tasgau priodol yn ymddangos ar wefan CBAC mewn digon o amser, felly does dim esgus. Yn anffodus, yr ymgeiswyr sy'n dioddef.

#### Tasg 1 – Y Cyflwyniadau Unigol

Roedd rhaid i'r cyflwyniadau fod yn seiliedig ar un o'r testunau canlynol oedd wedi ymddangos ar wefan ddiogel CBAC ers Hydref 2012:

- Cymru
- Ffasiwn / siopa
- Canu pop
- Ardal
- Gwaith elusennol / rhan-amser
- Digwyddiad arbennig.

Dewiswyd y testunau i gyd yn helaeth ar wahan i 'Gwaith elusennol / rhan-amser'. Mae rhai testunau mor agored fel bod digon o ddewis o fewn y testunau hynny. Cymerer 'Digwyddiad arbennig' er enghraifft. Gellid siarad am gêm arbennig, mynd ar wyliau, eisteddfod neu gyngerdd yr ysgol, gŵyl bop, priodas deuluol a llawer mwy. Cafwyd agweddau niferus ar Gymru hefyd – chwaraeon yng Nghymru, gwyliau yng Nghymru, atyniadau yng Nghymru, diwylliant Cymru, prifddinas Cymru ac ati. Er nad oedd 'Sêr o Gymru' yn ymddangos fel testun penodol fel y gwnaeth y llynedd cafwyd nifer fawr yn ei ddefnyddio o dan y testun 'Cymru'. Does dim o'i le yn hynny.

Roedd 'Ardal' yn destun poblogaidd iawn ac unwaith eto dysgodd y safonwyr allanol dipyn am ddaearyddiaeth Cymru. Dro ar ôl tro cafwyd ymgeiswyr o fewn yr un ganolfan yn siarad am tua dwsin o wahanol bentrefi neu drefi gan roi gwybodaeth ddi-ddiwedd amdanynt – tystiolaeth o waith ymchwil eang. Roedd hyn yn gwneud y gwaith o safoni'n bleserus tu hwnt. Yn anffodus, cafwyd ymgeiswyr o ambell ganolfan yn rhoi'r un manylion, yr un disgrifiadau, yr un ffeithiau, yr un 'popeth' am yr un lle, yr un dref, yr un ddinas. Teimlid yn yr achosion prin yma mai'r athrawon oedd wedi bwydo'r ymgeiswyr gyda'r wybodaeth yn hytrach nag annog yr ymgeiswyr i ymchwilio am y wybodaeth.

Roedd yr un peth yn wir am y testunau eraill. Gyda 'Canu pop', er enghraifft, tra mewn rhai canolfannau siaradwyd am nifer helaeth o wahanol sêr, mewn lleiafrif o ganolfannau dim ond siarad am ddwy neu dair seren wnaeth yr ymgeiswyr fel petai pawb wedi astudio am y sêr hynny ac am neb arall. Teimlid mai dewis yr athrawon a gafwyd nid dewis yr ymgeiswyr. Os gwir hyn, mae'n drueni mawr, achos ceir yr argraff bod yr ymgeiswyr mewn llawer iawn o ganolfannau wedi cael pleser mawr wrth dwrio a chwilota am wybodaeth. Nid drwg o beth yw sôn eleni eto am gyfraniadau effeithiol iawn rhai athrawon wrth iddynt ofyn rhywbeth fel: 'Nawrte Tom, rwyt ti wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil wrth baratoi'r cyflwyniad yma. Pa waith ymchwil wnest ti?' Roedd hyn yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn siarad am y gwaith ymchwil. Syniad da. Teg dweud i lawer mwy o athrawon wneud hyn eleni.

Roedd yr amseru, ar y cyfan, yn llawer gwell eleni er bod nifer o gyflwyniadau yn dal i fod yn rhy fyr mewn rhai canolfannau i gyfiawnhau marciau'r ganolfan. Cofier y disgwylir i ymgeiswyr o safon gradd G-D siarad am tua 2-3 munud a rhai o safon C-A\* am tua 3-5 munud.

Unwaith eto, gwendid arall mewn rhai canolfannau oedd gor-ddibyniant ar y cof. Oherwydd natur y dasg, gyda'r holl waith ymchwil a pharatoi ymlaen llawn, mae'n anochel bod yr ymgeiswyr yn dibynnu tipyn ar gofio'r hyn maent wedi ei baratoi ond, fel yr ail adroddir mewn adroddiadau o flwyddyn i flwyddyn, weithiau roedd y naturioldeb yn mynd ar goll oherwydd y gor-baratoi. Ambell waith roedd y cam-ynganu a'r cam-bwysleisio yn awgrymu'n gryf nad oedd pawb bob amser yn deall popeth roeddent yn ei ddweud (h.y. beth roeddent wedi ei ddysgu ar gof).

Cofier y gellir defnyddio'r 30 gair o bwyntiau bwled i nodi ffeithiau, ystadegau, dyddiadau ac ati. Cofier hefyd na ellir defnyddio'r pwyntiau bwled ar gyfer patrymau/strwythurau ieithyddol ac ati. Gwnaethpwyd hynny eto eleni gan rai canolfannau. Mae'r pwyntiau yma'n wir am y sgwrs sefyllfa hefyd, wrth gwrs. Cofier hefyd y dylid anfon y pwyntiau bwled a ddefnyddir gan aelodau'r sampl at y safonwyr allanol gyda'r gwaith cwrs. Ni wnaethpwyd hyn gan bob canolfan. Mae hyn yn wir am bob tasg.

Roedd safon y recordio'n dda, ar y cyfan. Mae'r cryno ddisgiau'n llawer mwy dibynadwy na'r hen gasetiau. Fodd bynnag, ceir problemau weithiau pan fod safonwyr allanol yn methu gwrandao ar ddisgiau oherwydd y modd y recordiwyd arnynt. Roedd rhaid gofyn am ail recordiad mewn sawl achos. Rhaid pledio ar i ganolfannau wrando ar y recordiadau cyn eu hanfon.

## Tasg 2 – Y Sgwrs sefyllfa (tasg pâr / grŵp o 3)

### Y Dasg Lafar

Cafwyd llawer mwy o barau na grwpiau eleni. Diolch byth, ni chafwyd llawer o grwpiau gyda mwy na thri ymgeisydd. Roedd yr amseru, ar y cyfan yn dipyn gwell er i leiafrif fod yn llawer rhy fyr unwaith eto. Cofier bod disgwyl i barau siarad am rhwng 4 a 7 munud a grwpiau am rhwng 6 a 10 munud. Ar ôl dweud hynny mae ffactorau megis cyflymder y siarad neu amllder ymyrraeth yr athro/athrawes yn gallu dylanwadu ar hyn.

O ran tasgau, gosodwyd 5 opsiwn gan CBAC yn seiliedig ar y themâu 'Cymru / diwylliant Cymru', 'Digwyddiad arbennig', 'Sinema / byd y ffilmiau', 'Gwyliau' a 'Canu pop' Wrth gwrs, mae hawl gan ganolfannau addasu'r tasgau neu gynnig tasgau gwahanol ar yr un themâu – **ond dim ond ar ôl derbyn caniatâd CBAC i wneud hynny.**

Braf medru dweud i bob opsiwn gael eu defnyddio'n helaeth eleni ond efallai mai Opsiwn 1, sef cynnig atyniadau ar gyfer llyfr Llywodraeth Cymru, 'Atyniadau Gorau Cymru ar gyfer Pobl Ifanc', oedd yr un mwyaf poblogaidd.

Fel gyda'r cyflwyniadau unigol, roedd safon y gwaith yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan – sgysiau ardderchog mewn rhai canolfannau ond rhai braidd yn siomedig mewn eraill. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ganolfannau, roedd trafodaethau'r pâr neu grŵp gorau yn cyrraedd safon rhyfeddol o uchel. Heb enwi neb, trueni na allai rhai o feirniaid niferus athrawon Cymraeg ail iaith glywed y trafodaethau yma er mwyn iddynt gael syniad o'r gwir ddarlun. Llwyddai'r goreuon i ymateb i'r gwahanol dasgau'n hyderus. Trafodwyd a mynegwyd barn aeddfed ar amrywiaeth o destunau. Roedd y cydadweithio'n gampus a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol. Roedd yma dystiolaeth o ddefnyddio ystod eang o amserau'r ferf, patrymau ieithyddol, ymadroddion ac ati gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn meddu ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf.

Defnyddiwyd pwyntiau bwled y gwahanol dasgau'n gelfydd iawn gan lawer o ganolfannau gyda'r ymgeiswyr yn eu defnyddio'n synhwyrol wrth gyflwyno gwybodaeth am eu cynigion ac hefyd, wrth holi eu partner/iaid am eu cynigion hwythau. Mewn geiriau eraill, fe'u defnyddiwyd fel math o restr wirio (*check-list*) i sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion y dasg. Roedd cyfraniad yr athrawon yn allweddol yn hyn o beth mewn rhai canolfannau yn arbennig gyda'r disgwylion llai galluog.

Ar ôl yr holl ganmol, trueni bod rhaid bod yn feirniadol hefyd. Mewn rhai canolfannau, fel yn y cyflwyniadau, roedd y cynnwys a'r mynegiant braidd yn siomedig ac yn rhy elfennol i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan. Cafwyd rhai sgysiau annaturiol hefyd. I raddau, mae hyn braidd yn anorfod gan fod yr ymgeiswyr wedi bod yn paratoi'r union dasg am tua mis o amser. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymgeiswyr yn dibynnu'n ormodol ar y cof gan gam-bwysleisio, cam-seibiannu a cham-ynganu'n aml. Mae hyn yn awgrym cryf nad oedd yr ymgeiswyr yn deall popeth roeddent yn ei ddweud. Roedd geiriau syml, cyfarwydd fel 'hun', 'dydd', 'Mai', 'dillad' a llawer mwy yn cael eu cam-ynganu. Cymerer un ganolfan arbennig. Cam-ynganwyd geiriau cyfarwydd fel 'fi' (ffi), 'cytuno' (cytwno), 'gallu', (galw), 'te' (ti), 'wneud' (pob math o fersiynau), 'chwech' (chwech), 'Cymru' (Cymrw), 'wych' (wic), 'saith' (seith). Eto'i gyd cafodd y geiriau yma, a rhai llawer llai cyfarwydd, eu sillafu'n berffaith yn y dasg ysgrifennu.

Roedd tystiolaeth o waith ymchwil yn y mwyafrif o'r sgysiau a glywyd ond ni chafwyd arwydd o waith ymchwil o gwbl gan rai ymgeiswyr. Fel yn y cyflwyniadau roedd ambell athro/athrawes yn gofyn y cwestiwn 'Pa waith ymchwil wnaethoch chi?'. Does dim o'i le yn hynny. Fel y dwedwyd yn adroddiad 2012, mae'n syniad y gellid ei gymeradwyo i rai canolfannau.

Mewn rhai canolfannau ni chafwyd cyflwyniadau gan yr ymgeiswyr ar ddechrau'r gwahanol dasgau. Byddai'n help mawr petai'r ymgeiswyr yn cyflwyno eu hunain (pedwar neu bump ffaith) er mwyn i'r safonwr ymgyfarwyddo â'u lleisiau. Ni chafwyd cyflwyniad o gwbl gan yr athrawon na'r ymgeiswyr mewn rhai canolfannau. Weithiau doedd dim syniad gan y safonwr pwy oedd yn siarad. Mae'r dasg ysgrifennu yn help yn hyn o beth er braidd yn drafferthus. Ar y pegwn arall roedd y cyflwyniadau personol dechreuol yn llawer rhy hir, weithiau'n 1½ - 2 funud, a weithiau'n hirach na'r tasgau eu hunain. Mae pedair i bum ffaith yn ddigon.

Teg dweud i'r mwyafrif o ganolfannau gyflwyno'u gwaith yn brydlon ac yn drefnus. Doedd hyn ddim yn wir am bob canolfan, serch hynny, ond mae'r canolfannau hynny wedi eu hysbysu yn yr adroddiadau unigol.

## **Y Dasg Ysgrifennu**

Gosodir dwy dasg ysgrifenedig gan CBAC ar gyfer pob tasg lafar. Bwriedir y dasg gyntaf ar gyfer yr ymgeiswyr llai galluog a'r llall ar gyfer y goreuon er i'r goreuon, mewn rhai canolfannau, ddefnyddio'r dasg gyntaf mewn modd digon uchelgeisiol i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd iddynt gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni chadwodd pob canolfan at dasgau gosodedig CBAC. Mae rhyddid iddynt eu newid ond rhaid cael caniatâd CBAC cyn gwneud hynny, fel gyda'r tasgau llafar.

Ar y cyfan roedd safon y gwaith ysgrifenedig yn foddhaol iawn, hyd yn oed mewn canolfannau lle cafwyd problemau gyda'r tasgau llafar. Yn wir, yn aml iawn, yn y canolfannau yma roedd safon y gwaith ysgrifennu'n well na safon y gwaith llafar. Gyda'r goreuon, yr hyn gafwyd, mwy neu lai, oedd adleisio holl gynnwys y dasg lafar, a gwnaethpwyd hyn yn effeithiol iawn. Roedd cynnwys a safon yr iaith ysgrifenedig yn adleisio'r hyn gafwyd ar lafar ac yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefel arbennig hwnnw.

O safbwynt cynnwys cafwyd amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn, cynllun ac adeiladwaith pendant, gwybodaeth cynhwysfawr gyda chyfraniadau estynedig, mynegi barn yn rhwydd ac yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol, tystiolaeth i gefnogi barn, naws ac awyrgylch pwrpasol ac ati.

Roedd y goreuon yma'n cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. Defnyddient gystrawennau Cymraeg a ffurfiau berfol yn gyson gywir ac roedd elfen gref o gywirdeb yn amlygu'r gwaith. Wrth gwrs, yr hyn ddisgwylir ar unrhyw lefel yw bod safon y gwaith, y cynnwys a'r mynegiant, yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefel arbennig hwnnw.

Daethpwyd ar draws ambell broblem rhyfedd. Mewn un ganolfan cafwyd yr un gwaith ysgrifennu yn union gan ddau ymgeisydd. Yr unig wahaniaeth oedd bod un mewn du a gwyn a'r llall mewn lliw. Rhyfedd! Rhaid llongyfarch y mwyafrif o'r canolfannau, yr athrawon am eu gwaith cydwybodol a phroffesiynol, a'r ymgeiswyr am eu gwaith canmoladwy iawn gyda'r goreuon bron ym mhob canolfan yn cyrraedd safon uchel iawn. Llongyfarchiadau iddynt oll.

## UNED 3

### YR ARHOLIAD LLAFAR / DARLLEN - Y Dasg Pâr/Grŵp.

Braf medru dweud i'r arholiad ar ei ffurf gymharol newydd fod yn llwyddiant. Mae llawer iawn a ddywedwyd am y sgwrs sefyllfa yn Uned 2, rhinweddau neu ffaeleddau, yn wir am arholiad Uned 3 yn ogystal.

Y swigod gyda'u darnau darllen yw cam (i) sef man cychwyn yr arholiad erbyn hyn, wrth gwrs. Yn y mwyafrif o achosion, defnyddiodd yr ymgeiswyr a'r athrawon y darnau darllen mewn ffordd gadarnhaol iawn. Rhaid dangos dealltwriaeth o gynnwys y darnau er mwyn sicrhau'r marc darllen, a gwnaethpwyd hyn yn ddigon boddhaol. Yn ogystal, fodd bynnag, defnyddiwyd cynnwys y darnau fel cymorth i'r ymgeiswyr i gynnal y sgysiau – yn rhoi gwybodaeth a syniadau iddynt y gellid eu defnyddio yn eu sgysiau ei hunain. Roedd hyn ym wir am ymgeiswyr ar y marciau isaf yn ogystal â'r goreuon. Roedd y darnau darllen yn rhoi geirfa a phatrymau brawddegol, yn ogystal â syniadau iddynt, rhywbeth nad oedd y lluniau na'r deunyddiau fideo'n llwyddo i'w wneud.

Cofier nad oes angen i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth lawn o bob darn darllen. Fe aeth rhai o'r sgysiau'n hir iawn am i ymgeiswyr rhai canolfannau wneud hynny. Dylid dewis darnau sy'n cyfateb i allu'r gwahanol ymgeiswyr. Dyma'r fformiwla neu'r cyngor a roddwyd yn adroddiad y llynedd ac yn y sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus.

Dylid dewis darnau darllen yn unol â'r canllawiau canlynol:

O safbwynt y marc 'darllen', i ennill marc o:

- 8 dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen D a chyffwrdd â darnau CH a C;
- 7 dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen CH â chyffwrdd â darn C;
- 6 dylid dangos dealltwriaeth eithaf llawn o ddarn darllen CH a chyffwrdd â darn C;
- 5 dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen C;
- 4 dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen B a chyffwrdd â darn A;
- 3 dylid dangos dealltwriaeth eithaf llawn o ddarn darllen B a chyffwrdd â darn A;
- 2 dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen A.
- 1 dylid dangos dealltwriaeth o rai pwyntiau yn narn darllen A.

'cyffwrdd â' = un pwynt yr un yn ddigon.

**Cofier am y 2 farc 'iaith' hefyd.**

Er mwyn ennill y marciau 'darllen' mae dangos y ddealltwriaeth berthnasol yn bwysig iawn. Nid dangos eu bod yn gallu darllen y darnau'n uchel yw'r nod. Yn anffodus, dyna gafwyd mewn lleiafrif o ganolfannau.

Wrth gwrs, mae cam (i) yn cyfrannu, nid yn unig tuag at y marc 'darllen' ond hefyd, ynghyd â'r tri cham arall, tuag at y marc llafar.

Mae dau bwmpas i'r darnau darllen felly:

- Rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall y darnau darllen perthnasol
- Rhoi symbyliad/au i'r ymgeiswyr i drin a thrafod y testun dan sylw gan ddilyn y canllawiau a roddir yng nghamau (ii), (iii) a (iv) yn ogystal a cham (i).

Cyflawnwyd y dangos dealltwriaeth yn dda gan y mwyafrif. Roedd y goreuon yn llwyddo i wneud hynny heb unrhyw gymorth o gwbl gan yr athrawon. Roedd angen mwy o help ar y gweiniaid ac yn aml, roedd cyfraniadau'r athrawon yn allweddol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ennill marc 'darllen' teilwng. Roedd cwestiynau syml fel 'Beth mae Siân yn ei wneud yn ei amser hamdden?' neu 'Wyt ti'n cytuno â Siôn?' yn ddigon effeithiol. Fodd bynnag, er i sylw gael ei roi i'r ffaeledd hwn yn adroddiad y llynedd, roedd arferiad anffodus gan rai athrawon i gyflwyno gwybodaeth o'r darnau darllen yn hytrach na rhoi'r cyfle i'r ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth, ac ennill marciau 'darllen', drwy wneud hynny. Er enghraifft, cafwyd athrawon yn dweud pethau fel 'Mae Sioned yn meddwl y dylid gwahardd ysmygu'n gyfangwbl. Wyt ti'n cytuno?' Roedd y 'cytuno', wrth gwrs, yn rhan bwysig o'r elfen 'lafar' ond ni roddwyd cyfle i'r ymgeisydd 'ddangos dealltwriaeth' o'r darn hwnnw o'r deunydd symbylus am i'r athro wneud hynny drosto.

Roedd safon y gwaith yn ganmoladwy iawn yn y mwyafrif o ganolfannau. Cafwyd enghreifftiau o waith arbennig gan nifer fawr o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau yn dangos dealltwriaeth iawn o'r darnau darllen symbylus, yn trin a thrafod y testunau dan sylw'n hyderus ac yn ymestynnol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ac yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen.

Roedd y safon yn dda iawn ymhlith y goreuon a llwyddodd y gweiniaid i gynnal sgysiau mwy sylweddol nag arfer, yn bennaf am fod cynnwys y darnau darllen symbylus yn help iddynt, ac weithiau'n rhoi syniadau i'r athrawon hefyd. Trafodwyd a mynegwyd barn aeddfed ar amrywiaeth eang o destunau. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Ymhlith y goreuon roedd y cydadweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd cynnwys y darnau darllen symbylus yn effeithiol dros ben a chafwyd cyfeiriadau yn ôl atynt drwy gydol llawer iawn o'r trafodaethau. Roedd hyn yn cadarnhau bod yr ymgeiswyr wedi deall y darnau darllen symbylus ond hefyd roedd yn ychwanegu at naturioldeb y sgysiau ac yn profi fod llawer o ymgeiswyr yn medru siarad yn naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof. Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru siarad iaith glir a chywir ar y lefel uchaf.

Fodd bynnag, yn y Sylfaenol ac weithiau yn yr Uwch mewn llawer o ganolfannau roedd tueddiad i or-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach na chael yr ymgeiswyr i holi ac ateb ei gilydd a chafwyd fawr ddim o'r cydadweithio sy'n rhan bwysig o'r cynllun marcio. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Gan ail adrodd y bregeth flynyddol, **mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro / athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy'r 4 cam.** Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.

Fel yn y gorffennol, dilynwyd y cyfarwyddiadau gweinyddol gan y mwyafrif o ganolfannau gyda phopeth yn drefnus ac yn daclus iawn. Diolch! Gofynnir yn garedig i ganolfannau gyflwyno'r ymgeiswyr a'r tasgau ar ddechrau pob recordiad. Mae angen i bob ymgeisydd wneud "cyflwyniad" o ryw 4 neu 5 brawddeg ar ddechrau'r dasg – mae hyn yn hwyluso gwaith y safonwr ac yn help i adnabod y lleisiau gwahanol. Hefyd gellid annog yr ymgeiswyr i ddefnyddio enwau ei gilydd wrth iddynt sgwrsio.

I grynhoi, bu'r arholiad yn llwyddiannus iawn ar y cyfan. Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr a diolch i'r athrawon am eu gwaith caled, cydwybodol ac effeithiol. Ni ymddiheuir am ailadrodd yr hyn ddwedwyd yn adroddiad y llynedd: 'nid yw ymdrechion diflino'r mwyafrif o athrawon Cymraeg Ail Iaith yn derbyn y clod haeddiannol mor aml ag y dylent'.

## UNED 4 – DARLLEN AC YSGRIFENNU

Mae'r uned hon ynghyd ag Uned 3 yn rhoi cymhwyster Cwrs Llawn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac felly mae'r gynulleidfa sy'n astudio'r unedau hyn yn wahanol o ran yr amser cwricwlaidd sydd ganddynt i astudio'r Gymraeg. Adlewyrchir hyn hefyd ym mhwysoli'r marciau. Yn Uned 1 mae'r pwysoli 60 : 40 o blaid y darllen a'r pwysoli yn yr uned hon 60 : 40 o blaid yr ysgrifennu. Felly, yn naturiol mae mwy o bwyslais ar greadigrwydd a chywirdeb yn y gwaith ysgrifennu yn Uned 4.

Hon yw'r ail flwyddyn i'r Uned hon gael ei chyflwyno ac felly roedd yn naturiol bod ymgeiswyr ac athrawon yn fwy cyfarwydd â'r dulliau asesu ac o'r herwydd wedi paratoi eu hymgeiswyr yn fwy trwyadl. Mae gwaith y goreuon o safon uchel iawn o ran dealltwriaeth, creadigrwydd a chywirdeb.

**Cwestiwn 1. Darllen 10 marc.** (8 marc - darllen, 2 farc - ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

- (i) Y dasg yma ydy darllen llythyr gan Adran yr Amgylchedd ac yna rhoi gwybodaeth benodol o'r llythyr mewn poster ar gyfer ei arddangos ar wal yr ystafell ddosbarth. Mae angen i'r ymgeiswyr ganolbwyntio wrth ateb y cwestiwn oherwydd collodd llawer farciau trwy roi 'saith o'r gloch' yn lle 'hanner awr wedi saith' fel yr amser – yn amlwg diffyg canolbwyntio.
- (ii) dyfarnwyd 2 farc am ymateb yn ddealladwy a synhwyrol i'r elfen hon.

Rhoddyd 1 marc am 'ddiolch' ac un marc am roi rhif y disgyblion oedd yn mynd i'r cyfarfod, yn gyfathrebol. Y goreuon yn unig oedd wedi deall ac ymateb yn llwyddiannus yn (b)

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- ddarllen y darnau'n ofalus er mwyn osgoi camgymeriadau e.e. gyda dyddiad y cyfarfod a dyddiad cau ayyb
- sylwi ar ofynion yr ail ran gan baratoi ysgrifennu nodyn, e-bost neu lythyr i ymateb yn bersonol i ddarn darllen.

**Cwestiwn 2. Ysgrifennu 15 marc.** (8 cynnwys, 7 iaith)

Y dasg oedd ysgrifennu'n bersonol mewn brawddegau llawn ar destunau cyfarwydd ar gyfer cylchgrawn yr ysgol.

Roedd hi'n amlwg fod yr ymgeiswyr yn gyfarwydd iawn a'r cyd-destunau sef - teulu, cartref a gweithgareddau'r penwythnos ac adlewyrchid hyn yn y marciau cynnwys, gyda chyfran uchel iawn yn ennill o leiaf 6 marc.

Dyfarnwyd 8 marc am gyflwyno 8 ffaith yn ddealladwy, ond roedd rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno ffeithiau ar y dair adran i gael dros 7 marc cynnwys. Dyfarnwyd hyd at 7 marc am gystrawennau a ddefnyddiwyd yn gywir yn yr ymatebion. Gyda mynegiant, rhoddir 4 marc am y defnydd o bedair cystrawen wahanol yn gywir a 3 marc am un gystrawen yn y Gorffennol / Amherffaith er mwyn ymateb i'r adran olaf – *Penwythnos diwethaf – pethau wnes i*.

Ar y cyfan, llwyddodd canran uchel i ymateb yn llwyddiannus i'r gofynion gan ddefnyddio'r amrywiaeth o gystrawennau oedd yn angenrheidiol i ymateb yn llwyddiannus.



Dyma enghraifft o'r math o ymateb sy'n cynnwys o leiaf 4 cystrawen wahanol a defnydd cywir o'r gorffennol.

Tom ydy enw dad a Siân ydy enw mam. Mae gyda fi un chwaer ac un brawd. Rydw i'n chwarae badminton gyda John.

Rydyn ni'n hoffi gwyllo ffilm yn y sinema.

Dw i'n byw mewn tŷ teras yn Llandre. Dw i'n hoffi Llandre achos mae gyda fi ffrindiau da yma.

Dydw i ddim yn hoffi mynd ar y bus i'r ysgol a dydw i ddim yn hoffi'r glaw.

Dydd Sadwrn chwaraeais i rygbi gyda ffrindiau a dydd Sul es i i nofio.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- sicrhau eu bod wedi ymateb i bob adran gan dalu sylw i'r cwestiwn e.e. Eich cartref - collodd amryw gyfle i ennill marciau cystrawen trwy anwybyddu yr elfen 'beth dydych chi ddim yn hoffi am y lle?'
- Gweiniaid – ymarfer ysgrifennu'n syml yn y Gorffennol e.e. es i, gwelais i, roeddwn i'n ayyb.
- ymarfer defnyddio'r gystrawen - ydy - Siân ydy ....., Rhian a Jon ydy enwau mam a dad.

**Cwestiwn 3 (Sylfaenol) 1 (Uwch). Darllen 20 marc.** (16 darllen, 4 deall ac ymateb yn ysgrifenedig)

Darllen dau ddyddiadur ar themâu cyfarwydd i bobl ifanc oedd y dasg a dangos dealltwriaeth trwy gwblhau tasgau llenwi grid. Yn yr ail ran, ysgrifennu brawddegau i gymharu eu profiadau nhw â Rhiannon a James, oedd y weithgaredd.

Cafwyd ymatebion llwyddiannus i'r rhan gyntaf a'r ymgeiswyr yn perfformio yn ôl y disgwyl. Yr adrannau ar y 'dathlu' oedd yn creu problemau i'r canolig a'r gweiniaid yn yr Haen Sylfaenol. Yn sicr dylai athrawon ddefnyddio'r penawdau hyn a geir yng nghyd-destun B gyda'r ymgeiswyr.

Mae'r ail ran yn achosi llawer mwy o broblemau. Mae rhaid i'r cynnwys fod yn gywir cyn y gellir dyfarnu marc am gywirdeb yr ymateb.

Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r wybodaeth a gyflwynir yn anghywir.

Fel Rhiannon dydw i ddim yn hoffi *Coronation Street*. = 0 marc

Yn wahanol i James, dw i'n hoffi rhaglenni rygbi ar S4C. = 0 marc

Atebion 2 farc yr un:

Dw i'n hoffi chwarae rygbi a mae James yn hoffi chwarae rygbi.

Mae Rhiannon yn casau pêl-droed, fel fi.

Dyfarnwyd 1 marc am frawddegau oedd ddim yn gwbl gywir ond oedd ag elfen gref o gywirdeb. e.e.

Dw ddim yn deall Ffiseg fel Rhiannon.

Dw i'n mynd rygbi clwb a mae James yn mynd i rygbi clwb.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- sicrhau nad ydynt yn cymysgu rhwng Rhiannon a James
- cofio bod y wybodaeth i ateb y cwestiwn yn aml mewn mwy nag un lle yn y dyddiadur
- sicrhau bod y termau a ddefnyddir yng nghyd-destun B – fel dathlu – yn gyfarwydd iddynt
- ymarfer digon ar ail ran y dasg
- dysgu ar y cof ymadroddion fel: yn wahanol i ..., fel ....., yn debyg i ...

**Cwestiwn 4. (Sylfaenol) 2 (Uwch). Ysgrifennu 30 marc** (15 cynnwys, 15 mynegiant)

Y dasg eleni oedd ysgrifennu ar dri thestun o gyd-destun B sef, Bywyd ysgol, Technoleg ac Amser Hamdden. Trueni o'r mwyaf oedd canfod fod canran fach o ymgeiswyr o'r ddwy haen wedi penderfynu ysgrifennu ar 1 topig yn unig. Mae'r marciau a roddir am bob topig yn ganllaw ynghlŷn â hyd y paragraffau sydd eu hangen ar bob un.

i) Bywyd ysgol. Cafwyd ymatebion da gan drwch yr ymgeiswyr gan restru'n gryno a diddorol y pethau da a'r pethau drwg.

ii) Hon oedd yr adran apeliodd at y mwyafrif a chafwyd gwybodaeth fanwl a diddorol am y technegau modern mae'r bobl ifanc hyn yn eu defnyddio.

iii) Llwyddodd y garfan Sylfaenol ac Uwch i ysgrifennu'n ddiddorol gan gynnwys amrywiaeth dda o ffeithiau. Cafodd llawer o'r gweiniaid drafferth i gynnal yr amser gorffennol trwy'r darn. Yn aml, roeddent yn dechrau'n dda gyda 'es i i' ac wedyn yn parhau yn y presennol.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- canolig a gwan, – ganolbwyntio ar gystrawen sylfaenol y frawddeg a sicrhau bod berf yn y frawddeg
- cynnal y gwaith yn rhan (iii) yn yr amser gorffennol gan osgoi pethau fel 'es i mynd'
- yr Haen Uwch - ymarfer ysgrifennu yn yr amser Gorffennol gan ganolbwyntio ar gael cytundeb rhwng person y ferf a'r terfyniad e.e. camgymeriadau cyson a gafwyd oedd *bwytais e, teithiodd i*
- wrth ail ddrafftio eu gwaith canolbwyntio ar y cymalau gan osgoi camgymeriadau megis 'bod mae'
- yr Haen Uwch – amseru'r arholiad yn synhwyrol a pheidio treulio mwy na 15 munud ar y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 3. Uwch – Darllen 20 marc.** (16 marc darllen, 4 marc ymateb i ddarllen yn ysgrifenedig)

Eleni roedd llai o waith darllen yr erthygl 'Cadw'n iach' ond roedd y cynnwys yr un mor heriol â'r llynedd. Roedd y penawdau hefyd o gymorth i'r ymgeiswyr i ddod o hyd i'r adrannau perthnasol wrth restru'r wybodaeth ar ffurf pwyntiau bwled. Yn sicr, mae defnyddio pwyntiau bwled o gymorth i ateb y tasgau hyn o fewn yr amser cyfyngedig sydd ar gael.

Llwyddodd canran dda i ymateb yn llwyddiannus i gwestiynau 1 – 4 gan ddefnyddio pwyntiau bwled yn synhwyrol.

**Rhan 5. (8 marc)**

Yn sicr y rhan hon oedd yn gwahaniaethu'n glir rhwng y goreuon a'r canolig. Roedd 8 marc am ddau ateb cywir h.y. 4 marc yr un.

Dyma enghraifft o'r dull marcio.

- (i) Beth ddylai Bronwen wneud er mwyn bod yn fwy iach? 4 marc.  
2 marc (1 marc am gynnwys, 1 am gywirdeb mynegiant) am ddweud beth ddylai wneud. 2 marc (1 marc am gynnwys, 1 am gywirdeb mynegiant) am gynnwys rheswm. Wrth reswm rhaid i'r atebion adlewyrchu'r sefyllfa sy yn y darn darllen.

e.e.

Dylai Bronwen fwyta brechwast da (2 farc) achos wedyn basai hi ddim eisiau bwyd tan amser cinio. (2 farc)

Dylai Bronwen fwyta uwd i frechwast achos dydy gormod o goffi ddim yn dda i chi a rydych chi eisiau Mars bar amser egwyl. 4 marc

Dylai Kevin gerdded i'r ysgol felly mae e'n gallu mwynhau rygbi. 4 marc

Dylai Bronwen fwyta rhywbeth fel uwd i frechwast (2 farc) achos mae pwysig fwyta brechwast da (1 marc cynnwys, 0 marc iaith)

Dydy Kevin ddim yn ffit fel bechgyn eraill achos mae'n mynd i'r ysgol yn y car (2 farc) dylwn Kevin cerdded i'r ysgol (1 marc cynnwys, 0 marc iaith)

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- ysgrifennu ymatebion byr pwyntiau bwled, lle mae'n dderbyniol
- dangos dealltwriaeth trwy ddiolli'r pwyntiau ar gyfer ateb y cwestiwn yn hytrach na chopio sawl llinell a gobeithio cynnwys yr ateb cywir
- ymarfer rhan 5) gan ymateb i sefyllfaoedd tebyg
- ymarfer ffurfiau megis – dylai, mae rhaid, er mwyn bod.

#### **Cwestiwn 4. Uwch – Ysgrifennu 30 marc.** (15 cynnwys, 15 mynegiant)

Ymateb i unrhyw un o dri chwestiwn digon heriol oedd y dasg yn y cwestiwn olaf hwn. Cawsom ymdriniaeth ardderchog gan yr ymgeiswyr A\*. Roedd ganddynt syniadau aeddfed, barn glir a phendant a'r gallu i gyfleu hynny yn glir a diddorol. Defnyddiai lawer ohonynt ffurfiau megis 'gall plant', 'basai llai', 'dylai siopau' ayyb yn gywir wrth ysgrifennu ymatebion estynedig a chynhwysfawr. Roedd safon y goreuon yn wirioneddol ardderchog ac yn adlewyrchu'r ddarpariaeth drylwyr a geir mewn ysgolion o ran amser cwricwlaidd ac adnoddau dysgu.

(i) Sut i helpu a gwella'r amgylchedd yn eich ysgol a'ch ardal chi.

Cafwyd amrywiaeth o syniadau da e.e.

- ail-gylchu papur ym mhob ystafell ddosbarth
- defnyddio dwy ochr tudalennau
- peiriant diffodd y golau yn yr ystafelloedd
- plant yn cerdded a beicio i'r ysgol
- mwy o finiau ar gyfer sbwriel ar yr iard ac yn y ffreutur
- paneli solar.

(ii) Sut i wella cyfleusterau amser hamdden i blant a phobl ifanc yn eich ardal chi.

Eto cafwyd syniadau diddorol megis:

- torri prisiau canolfannau hamdden neu cael mynediad am ddim i bobl ifanc
- pobl ifanc yn helpu e.e. paentio
- siopau bach diddorol yn lle y siopau mawr
- gostwng prisiau'r sinema i bobl ifanc
- parciau sglefrfyrdio
- disgos i bobl ifanc yn yr ysgol gyda'r nos ac ar benwythnos
- gwella'r clwb ieuencid.

(iii) Sut i gael llai o blant a phobl ifanc i ysmegu ac yfed alcohol yn eich ardal chi.

Cafwyd syniadau da gan yr ymgeiswyr hynny oedd wedi rhoi ystyriaeth i ofynion y cwestiwn e.e.

- mwy o gyfleusterau ar gyfer yr ifanc
- gwell addysg iechyd yn yr ysgol
- gwahardd hysbysebu sigarêts ac alcohol ym mhobman
- codi pris sigarêts
- gorfodi siopwyr i fod yn fwy gofalus gydag oedran pobl ifanc
- newid delwedd ysmegu ac yfed ar y teledu
- llai o waith cartref - sy'n arwain at yfed i ymlacio!

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- wneud ymdrech deg i ateb y cwestiwn yn lle ysgrifennu ar destun cyfarwydd e.e. ysgrifennu am effaith ysmegu ac yfed ar y corff heb wedyn wneud unrhyw ymdrech i gynnwys syniadau sut i wella'r sefyllfa
- ceisio cynllunio eu hatebion yn well, gan fabwysiadu dull y goreuon o restru pethau fesul pwyntiau
- codi safon cywirdeb eu gwaith drwy ail ddrafftio eu gwaith yn y gwersi a chanolbwyntio ar osgoi camgymeriadau fel, mae rhaid i ni stopiwch, dw i'n meddwl bod dylai, rydw i'n meddwl bod mae, fy rhieni yn helpu fi (dim berf).



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Ffôn: 029 2026 5000  
Ffacs: 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)